Driver and Vehicle Licensing Agency
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Ffurflen gais am dystysgrif cofrestru cerbyd

I gael mwy o wybodaeth ewch i **www.direct.gov.uk/vehiclereg**

**V62W**

**Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus.**

## A Pryd y dylech ddefnyddio'r ffurflen hon

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am dystysgrif cofrestru cerbyd (V5CW):

- os ydych wedi prynu'r cerbyd ond heb gael y V5CW yn eich enw chi; neu
- os yw'r un wreiddiol wedi'i cholli, ei dwyn, ei difrodi neu ei dinistrio.

Os ydych wedi bod â V5CW yn eich enw chi ar gyfer y cerbyd hwn yn y gorffennol, a manylion y cerbyd a'ch manylion personol heb newid, gallwch wneud cais am gopi arall trwy ffonio 0300 790 6802. Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw, a chithau â ffôn testun, ffoniwch 0300 123 1279. (Ni fydd y rhif hwn yn ymateb i ffonau cyffredin). Gwnewch yn siŵr fod gennych gerdyn debyd neu gerdyn credyd wrth law pan fyddwch yn ffonio, gan ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid ichi dalu'r ffi o £25 (gweler Adran Ch).

## B Llenwi'r ffurflen hon

Os na fyddwch yn rhoi manylion llawn yn y cais hwn, fyddwn yn methu delio a'r cais a fydd yn cael ei ddychwelyd i chi i'w lenwi.

- Rhoi holl fanylion y cerbyd.
- Rhoi'ch enwau llawn, nid llythrennau blaen yn unig.
- Peidio â rhoi enwau ar y cyd (er enghraifft, enw gŵr a gwraig neu enw tad a mab).
- Rhoi cyfeiriad ym Mhrydain Fawr.
- Nid yw cyfeiriad blwch Swyddfa'r Post yn dderbyniol oni bai fod y cais dan enw cwmni sydd â chyfeiriad post llawn.

Wrth lenwi adran 3, gall masnachwr moduron fod:

- yn ddeliwr moduron;
- yn arwerthwr cerbydau modur;
- yn yswiriwr cerbydau modur rydych wedi setlo hawliad yswiriant ag ef;
- yn ddatgymalwr cerbydau modur (deliwr adfer); neu
- yn gwmni cyllid sydd â budd ariannol yn y cerbyd.

## C Faint fydd hyn yn ei gostio?

Y ffi ar gyfer y cais hwn yw **£25** (adeg argraffu'r ffurflen).
Dylai sieciau neu archebion post fod yn daladwy i 'DVLA, Abertawe'.
**Peidiwch ag anfon arian parod nac archebion post heb eu llenwi.**

## Ch Pan na chodir ffi

Nid oes yn rhaid ichi dalu ffi dan yr amgylchiadau a ganlyn.

- Os mai chi yw'r ceidwad newydd, a'r ceidwad blaenorol wedi methu â rhoi gwybod i ni am y newid. Mae'n rhaid ichi fod wedi cael adran manylion y Ceidwad Newydd (V5C/2W) y V5CW a'i hanfon atom ni gyda'r ffurflen gais hon.
- Os yw'r cwmni yswiriant yn honni bod y cerbyd yn gerbyd adfer categori C (byddai cost trwsio yn fwy na gwerth y cerbyd), a hwythau wedi dinistrio'r V5CW. Byddwn yn gwirio hyn i sicrhau mai dyma yw'r sefyllfa.

Mae'n rhaid ichi dalu am y categorïau a ganlyn:
A = sgrap yn unig, B = chwalu ar gyfer darnau sbâr yn unig, a D = mae modd ei drwsio.
Gallwch gael mwy o wybodaeth am gategorïau adfer oddi wrth y cwmni yswiriant.

## D Pryd y dylai'r V5CW eich cyrraedd

Dylai'r V5CW eich cyrraedd cyn pen:

- dwy wythnos os ydych wedi'ch cofrestru eisoes fel y ceidwad cofrestredig; neu
- pedair wythnos os yw'r ceidwad wedi newid.

**Fodd bynnag, os na fydd yn eich cyrraedd o fewn yr amser yma, dylech adael chwe wythnos cyn cysylltu â ni.**
**Sylwch:** bydd y cyfeiriad ar y V5CW yn ymddangos yn fformat dewisol y Post Brenhinol. Efallai na fydd yn union yr un fath â'r un a roddir yn eich cais.

## Dd Beth i'w wneud os oes angen ichi drethu'ch cerbyd hefyd

**Os ydych eisoes wedi'ch cofrestru fel ceidwad cofrestredig y cerbyd,** gallwch drethu'ch cerbyd mewn **swyddfa DVLA leol** trwy ddefnyddio'r ffurflen hon a'r dogfennau a ganlyn.

- Ffurflen 'Cais am ddisg treth' (V10W) neu 'Cais i drethu Cerbyd Nwyddau Trwm' (HGV) (V85W).
- Eich tystysgrif yswiriant a'ch tystysgrif MoT, os oes angen un arnoch ar gyfer eich cerbyd (mae'n rhaid iddi fod yn ddilys ar y dyddiad y daw'r disg treth i rym).

**Ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon i drethu'ch cerbyd yng nghanghennau Swyddfa'r Post®.**
Os ydych wedi newid eich enw, mae tystysgrif priodas, archddyfarniad nisi, archddyfarniad absoliwt neu weithred newid enw yn dystiolaeth dderbyniol.
Os ydych wedi newid eich cyfeiriad, mae trwydded yrru gyfredol, cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu wreiddiol, neu fil nwy, trydan, ffôn neu dreth cyngor diweddar yn dystiolaeth dderbyniol.
**Os oes gennych V5C/2W, gallwch drethu'ch cerbyd mewn cangen Swyddfa'r Post® sy'n cyhoeddi disgiau treth, cyn pen dau fis o'r dyddiad y prynoch y cerbyd, neu cyn pen 13 mis mewn swyddfa DVLA leol.**
**Os nad chi yw'r ceidwad cofrestredig, a chithau heb V5C/2W, ni fyddwch yn gallu trethu'r cerbyd hyd nes ichi gael V5CW yn eich enw chi. Tan hynny, ni allwch drethu'r cerbyd, felly mae'n rhaid ichi wneud datganiad Hysbysiad Oddi-ar-y-ffordd Statudol (HOS).**

## E Beth i'w wneud os oes angen ichi hefyd wneud datganiad Hysbysiad Oddi-ar-y-ffordd Statudol (HOS)

Os mai chi yw ceidwad y cerbyd, neu os ydych ar fin dod yn geidwad y cerbyd, a chithau'n ei gadw oddi ar y ffordd, mae angen ichi wneud datganiad HOS. **Os ydych wedi prynu'r cerbyd yn ddiweddar, ni ellir trosglwyddo datganiad HOS o'r ceidwad blaenorol. Bydd angen ichi wneud datganiad HOS newydd.** Os na fyddwch yn gwneud datganiad HOS, gellir dwyn achos cyfreithiol yn eich erbyn.
I wneud datganiad HOS, llenwch ffurflen Hysbysiad Oddi-ar-y ffordd Statudol (HOS) sydd ar gael:

- o'r wefan yn **www.direct.gov.uk/motoringforms**;
- o ganghennau Swyddfa'r Post® sy'n cyhoeddi disgiau treth;
- o swyddfeydd DVLA lleol; neu
- o Ymholiadau Cwsmeriaid DVLA (gweler manylion cyswllt yn adran Ff)

Gwnewch yn siŵr eich bod yn atodi'r V890W at y ffurflen hon.

## F Diogelu Data – rhyddhau gwybodaeth

Byddwn yn cadw'ch manylion ar ein cofrestr cerbydau. Gallwn ryddhau'r manylion hyn os oes raid dan y gyfraith. Gallwch gael mwy o wybodaeth am sut a pha bryd y gallwn ryddhau'ch manylion trwy fynd i'r wefan yn **www.direct.gov.uk/dvladataprotection**

## Ff Gwybodaeth bellach

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn **www.direct.gov.uk/vehiclereg** Mae gwybodaeth hefyd yn y llyfryn 'Beth sydd angen i chi wybod am gofrestru a thrwyddedu eich cerbyd' (V100W), sydd ar gael o ganghennau Swyddfa'r Post® a swyddfeydd DVLA lleol. Gallwch gael cyfeiriadau ar gyfer eich swyddfa DVLA leol agosaf:

- ar y wefan yn **www.direct.gov.uk/dvlalocal**; neu
- drwy ffonio 0300 123 1277 (byddwn yn gofyn ichi beth yw'ch côd post).

Mae swyddfeydd DVLA lleol ar agor rhwng 9yb a 5yp o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9.30yb a 5yp ar yr ail ddydd Mercher ym mhob mis.
Os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsoch gennym, gwelwch daflen 'Canllaw gwasanaeth cwsmer DVLA a beth i wneud os aiff rhywbeth o'i le' (INS101W). Mae hon ar gael ar ein gwefan yn **www.direct.gov.uk/motoringleaflets** a thrwy ffonio Ymholiadau Cwsmeriaid (cerbydau) ar 0300 790 6802.
Mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 8yb a 8.30yh o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8yb a 5.30yp ar ddydd Sadwrn. Bydd rhai galwadau'n cael eu monitro at ddibenion hyfforddi a sicrhau ansawdd.
Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw, a chithau â ffôn testun, ffoniwch 0300 123 1279. (Ni fydd y rhif hwn yn ymateb i ffonau cyffredin).

**Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd dros y dudalen cyn llenwi'r ffurflen hon.**
**Ysgrifennwch yn glir mewn inc du gan ddefnyddio PRIF LYTHRENNAU.**

**Os na fyddwch yn rhoi manylion llawn yn y cais hwn, fyddwn yn methu delio a'r cais a fydd yn cael ei ddychwelyd i chi i'w lenwi.**

## 1. Manylion y cerbyd

**Rhif cofrestru'r cerbyd:** 2

Gwneuthuriad: ______

Model: ______

Lliw: ______

Dosbarth treth: (er enghraifft, Cerbyd Nwyddau Ysgafn/Preifat, Car Petrol): ______

**VIN, rhif y siasi neu'r ffrâm:**
(dangosir hwn fel rheol ar blât ger yr injan)
**Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth hon, byddwn yn dychwelyd atoch.**

## 2. Manylion y ceidwad

**Os yw'r cerbyd wedi'i gofrestru dan enw busnes neu sefydliad, rhowch yr enw hwnnw yn y bocs ac yna'ch enw llawn a chyfeiriad y busnes.**

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (er enghraifft, Dr) ☐

Enw'ch busnes neu'ch sefydliad: 32

Enwau cyntaf: 9

Cyfenw: 10

**Cyfeiriad cyfredol**

Rhif tŷ: 11

12

Tref bost

Côd post 13 Dyddiad geni DD MM BBBB 31

Rhif ffôn cyswllt:

Gallai darparu manylion cyswllt ein helpu i ddatrys unrhyw broblemau â'ch cais yn gyflymach.

**Ydych chi wedi cael tystysgrif cofrestru cerbyd (V5CW) ar gyfer y cerbyd hwn yn eich enw chi?** Do ☐ Naddo ☐

Os **naddo**, pryd gawsoch chi'r cerbyd? DD MM BBBB

## 3. Pam nad oes gennych chi V5CW?

**(Rhowch ☒ gyferbyn ag unrhyw rai sy'n berthnasol)**

- Prynais y cerbyd oddi wrth y ceidwad blaenorol neu fasnachwr moduron ac nid wyf wedi cael V5CW eto. ☐
- Mae wedi'i cholli, ei dwyn, ei difrodi neu ei dinistrio. ☐
- Ni allaf ei dangos am reswm arall. (Nodwch y rheswm isod) ☐

______

## 4. Ffi

- Amgaeaf y ffi o **£25** ☐
- Nid wyf yn amgáu'r ffi oherwydd:
  - fi yw'r ceidwad newydd, ac rwyf wedi amgáu adran manylion y ceidwad newydd (V5C/2W); neu ☐
  - fe wnaeth cwmni yswiriant ddinistrio'r V5CW gan eu bod yn honni bod y cerbyd yn gerbyd adfer categori C (gweler adran Ch dros y dudalen). ☐

## 5. Datganiad

Rwyf wedi gwirio'r wybodaeth ar y cais hwn, ac mae'n gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Os byddaf yn dod o hyd i'r V5CW neu os bydd y ceidwad blaenorol yn ei rhoi i mi, byddaf yn ei hanfon i DVLA, Abertawe.

Llofnod: ______ Dyddiad: DD MM BBBB

**Anfonwch y ffurflen hon i DVLA, Abertawe, SA99 1DD.**

**Milltiroedd:** 28
(i'r filltir gyfan ddiwethaf)
(Yn ôl y gyfraith, nid oes yn rhaid ichi nodi'r milltiroedd cyfredol.)

**Official Use Only V62W**
6/10

VC 3

MKE 4

MDL 5

CLR 6

TC 7

V10/V85/V70 Proc L

Independent ∅ 8

DVLA Date Stamp

DOE

CD 15 FI 16

ISC 17

UW 18

DOW 19

SC 20

EN 21

CC 22

W/BT 23 F 24

AM 25

RW 26

DOP 27

SP 29

PWR 30

ID N A

DUP V5

V62W-0610